**Adolygiad o gynnydd yn erbyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2023**

## 1. Cefndir

Gwnaed gwaith sylweddol yn genedlaethol ac o fewn Estyn i symud tuag at Gymru fwy cyfartal. Mae tystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r adolygiad hwn o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 Estyn (llyw.cymru) yn cynnwys:

- Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol LlC
- Cynllun gweithredu LHDTC LlC
- Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd
- Tuag at addysg bellach wrth-hiliol: ymchwil ansoddol ar brofiadau bywyd dysgwyr a staff | LLYW.CYMRU

## 2. Cyflawniadau allweddol yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb

*Amcan 1: Byddwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn sicrhau triniaeth deg i'n holl weithlu, staff ac arolygwyr dan gontract, gan fynd i'r afael â bwlio a gwahaniaethu, pryd bynnag y bydd yn digwydd.*

- Mwy o ffocws ar hyfforddiant staff, er enghraifft ar iaith gynhwysol a bwlio ac aflonyddu
- Diweddaru ein canllaw ar iaith gynhwysol fel rhan o'n harweiniad ysgrifennu i arolygwyr
- Ffocws ar iechyd meddwl a bwlio ac aflonyddu trwy ymrwymo i adduned Amser i Newid, creu cynorthwywyr cyntaf iechyd meddwl a chreu hyrwyddwyr gwrthfwlio y gall pobl siarad â nhw yn gyfrinachol
- Adolygu ein polisi gwrthfwlio i ddatblygu'r polisi Urddas yn y Gwaith newydd a gyhoeddwyd yn Ebrill 2023
- Cynyddu amrywiaeth aelodaeth y bwrdd
- Cryfhau ein trefniadau asesu'r effaith ar gydraddoldeb, gan gynnwys pan fyddwn yn cynllunio adolygiadau thematig
- Parhau i gyflwyno hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i'r holl staff, gan gynnwys fel rhan o sefydlu
- Hyrwyddo ein rhaglen arolygwyr cymheiriaid trwy Grŵp Cyswllt Cymru Wrth-hiliol Cymru Gyfan
- Parhau i fonitro amrywiaeth ein gweithlu
- Cynnal archwiliad cyflog cyfartal bob tair blynedd, gan gynnal y diweddaraf yn 2022
- Defnyddio fframweithiau caffael y llywodraeth, y mae cefndir cyflenwyr eisoes wedi cael eu harchwilio

*Amcan 2: Byddwn yn gwerthuso materion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod arolygiadau ac yn ein gwaith thematig, gan rannu arfer dda a gwneud argymhellion ar gyfer gwella, lle bydd angen*.

- Cyhoeddi adolygiadau thematig cenedlaethol perthnasol – Gweithredu ADY, tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau addysg bellach
- Adeiladu rôl y grŵp cydraddoldeb a chynhwysiant wrth nodi problemau sy'n dod i'r amlwg o arolygu a dylanwadu ar ymarfer
- Lansio ein rhaglen arweinyddiaeth ethnig lleiafrifol i gynorthwyo ymarferwyr ethnig lleiafrifol i ddeall ein rôl a chymryd camau tuag at ddod yn arolygwyr cymheiriaid gyda ni yn y dyfodol
- Cyflwyno ein 'hadroddiadau i rieni' fel bod ein hadroddiadau arolygu ysgolion ac UCDau yn fwy hygyrch a pharhau i wirio hygyrchedd ein holl adroddiadau.
- Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli dysgwyr o'r amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig er mwyn llywio ein gwaith
- Mae ein harolygydd arweiniol ar gydraddoldeb yn parhau i ddarparu diweddariadau i arolygwyr ar ddatblygiadau allweddol
- Trwy ein harolygiadau, rydym wedi ystyried gwaith i gynyddu cynrychiolaeth ac addysgu yn gysylltiedig ag amrywiaeth o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru ac wedi cyhoeddi astudiaethau achos lle y bo hynny'n briodol, er enghraifft taith Jubilee Park tuag at gwricwlwm gwrth-hiliol

3. **Adolygu ein hymagwedd at ein cynllun cydraddoldeb strategol**

Ym mis Medi 2022, adolygom ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yng ngoleuni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Cytunom y gellid gwella ein cynllun fel a ganlyn:

- dylai camau gweithredu gael eu cysylltu ag is-amcanion perthnasol fel y gallwn wirio p'un a ydynt yn debygol o ysgogi'r newid a ddymunir
- enwi pwy neu ba grwpiau sy'n gyfrifol; mae hyn yn sicrhau perchnogaeth ar gamau gweithredu
- nodi'r amserlenni a monitro dulliau – i'n helpu i gadw ar y trywydd cywir

- diwygio geiriad sy'n rhoi'r argraff bod y cynllun yn amwys neu ein bod yn ceisio dweud ein bod "eisoes yn gwneud pethau", gan y gall hyn swnio'n amddiffynnol ac mae'n ddiangen
- diwygio geiriad ac ychwanegu at gamau gweithredu i sicrhau bod y cynllun cydraddoldeb strategol yn cwmpasu ein hymateb i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol LlC yn gynhwysfawr (gweler isod)
- ei fonitro/ddiwygio yn flynyddol neu pryd bynnag y mae LlC yn cyhoeddi diwygiadau arwyddocaol i bolisi ar gydraddoldeb, er enghraifft i baratoi ar gyfer y cynllun gweithredu LHDTC+

Mae crynodeb o'n cynllun gweithredu diwygiedig ynghlwm yn Atodiad A ac rydym wedi bod yn gweithio yn unol â hwnnw fel dogfen fewnol. Hefyd, ystyriodd yr adolygiad ein hymagwedd at adrodd trwy eithriad mewn adroddiadau arolygu yn gysylltiedig â gwaith i gefnogi cynhwysiant ac ystyried profiadau dysgwyr sydd â'r ystod o nodweddion gwarchodedig. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i ddiweddaru yn cael ei fonitro a bydd cynnydd yn helpu i lywio ein cynllun cydraddoldeb strategol ar gyfer 2024-2028.

## Crynodeb o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 (diweddarwyd ym Medi 2022) diwygiedig

**Amcanion Cydraddoldeb 2020-2024**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **Amcan 1:**<br>**Byddwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn sicrhau triniaeth deg i'n holl weithlu, staff ac arolygwyr dan gontract, gan fynd i'r afael â bwlio a gwahaniaethu, pryd bynnag y bydd yn digwydd.** | | |
| **1.1.** | **Byddwn yn parhau i ddatblygu ffyrdd o gynyddu amrywiaeth ein gweithlu, gan gynnwys ymhlith aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil ac aelodaeth ein bwrdd, gyda'r nod o gynrychioli poblogaeth Cymru yn gymesur.** | 1. Adolygu ein prosesau recriwtio i sicrhau eu bod yn wrth-hiliol[b]<br>2. Cyfyngu effaith rhagfarn ddiarwybod yn ein harferion recriwtio, er enghraifft trwy barhau i ddefnyddio didoli dall i recriwtio[a]<br>3. Gwella cyrhaeddiad pob swydd sy'n cael ei hysbysebu, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, i godi ymwybyddiaeth o'n swyddi gwag ymhlith ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ohonynt[α]<br>4. Cynnal arolygon mewnol o'r staff ac arolygon estynedig o ymgeiswyr am swyddi a'r rhai sy'n gadael y gweithlu, yn rheolaidd, i nodi'r symud yn amrywiaeth ein gweithlu a'n darpar weithlu ac i nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol i ymarfer[α]<br>5. Llunio a gweithredu cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth, gan dargedu darpar uwch arweinwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ohonynt yn y gweithlu addysg, yn enwedig pobl sy'n ddu, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol, i ddatblygu eu medrau ym maes arweinyddiaeth addysg, arolygu ac i ddatblygu dealltwriaeth o brosesau datblygu polisi o fewn cyrff cyhoeddus fel Estyn[c]<br>6. Gweithio gyda staff a phobl mewn sefydliadau eraill i ddatblygu a dysgu o'r arfer orau i sicrhau arferion recriwtio, cadw a dilyniant gwrth-hiliol rhagorol, gan gynnwys ffyrdd o sicrhau bod staff ethnig lleiafrifol yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod grym ganddynt a'u bod yn gallu symud i'r lefel nesaf[b] | |
| **1.2.** | **Byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw driniaeth annheg ac ymddygiad amhriodol i leihau gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu tuag at ein staff, yn** | 1. Parhau i hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol a mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu iechyd meddwl yn unol â'n haddewid 'Amser i Newid'[α]<br>2. Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy ohebiaeth yng nghylchlythyr y staff a'r fewnrwyd a hyfforddiant, gan gynnwys pob rhaglen sefydlu[α]<br>3. Sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael hyfforddiant i gynyddu dealltwriaeth o ymddygiad amhriodol a gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu yn gyffredinol, a lleihau hynny, ac i greu | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **enwedig y staff â nodweddion gwarchodedig.** | newid sylweddol mewn diwylliant tuag at werthoedd ac ymddygiadau ar gyfer gwrth-hiliaeth[χ]<br>4. Sicrhau bod pob rheolwr yn cael hyfforddiant<br>i. ar sut i ddelio â honiadau o fwlio, gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn briodol ac i ddatblygu medrau cyfryngu i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau o dan Bolisi Estyn ar Fwlio ac Aflonyddu[d]<br>ii. i godi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys rhagfarn ddiarwybod[α]<br>iii. a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i gyrff cyhoeddus o ganlyniad i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol 2022, er enghraifft ar reoli timau croestoriadol[b]<br>5. Datblygu cyfleoedd i reolwyr gymryd rhan mewn mentora ac anogaeth wrthdro gydag arweinwyr cymunedol[β]<br>6. Adolygu a datblygu ymhellach ein Polisi a'n prosesau Gwrth-fwlio ac Aflonyddu, ar y cyd â staff, i sicrhau eu bod yn darparu proses briodol ar gyfer mynd i'r afael â phob math o fwlio, aflonyddu a gwahaniaethu, lle y bydd yn digwyddδ<br>7. Adolygu ein system Rheoli Perfformiad Parhaus a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yng ngoleuni unrhyw fframwaith ymddygiadau diwygiedig a gyhoeddir gan Academi Cymru fel rhan o weithredoedd LIC o dan y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliolβ a diwygiadau i Bolisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu Estynδ<br>Datblygu cynnig ar gyfer blaenraglen hyfforddiant i arolygwyr allanol yn gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o Arolygu ar gyfer y dyfodol | |
| 1.3 | **Byddwn yn parhau i sicrhau bod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'u gwreiddio mewn trafodaethau a gwneud penderfyniadau yn ein sefydliad.** | 1. Cynnal adolygiad o'n harferion i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a, lle y bo'n bosibl, yn rhagori arnynt[β]<br>2. Sicrhau ein bod yn cynnwys ac yn ceisio safbwynt amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys o grwpiau cymunedol a phobl â phrofiad bywyd, i lywio ein trefniadau ar gyfer arolygu yn 2024.<br>3. Cryfhau ein trefniadau ar gyfer asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a sicrhau bod effaith pob polisi ar gydraddoldeb yn cael ei hasesu cyn rhoi'r polisi ar waith, gan gynnwys trefniadau o dan brosiect Arolygu 2024[α]<br>4. Sicrhau bod asesiadau risg yn ystyried unrhyw effeithiau penodol i wahanol grwpiau o staff, gan gynnwys sylw i risgiau uwch pandemig i rai grwpiau[α]<br>5. Mynnu bod holl aelodau'r bwrdd yn cael amcan amrywiaeth a chynhwysiant sy'n cynnwys gwrth-hiliaeth fel rhan o'u system rheoli perfformiad[β] | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynyddu amrywiaeth bwrdd strategaeth Estyn gan sicrhau bod arweinwyr cymunedol yn ymwneud â datblygu polisi a gwneud penderfyniadau, gyda thâl, lle y bo'n bosibl ac yn briodol[β] | |
| 1.4 | **Byddwn yn cydweithio â chyrff eraill, rhanddeiliaid a'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y gweithlu addysg er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth yn y gweithlu addysg** | 1. Creu cyfleoedd i ymarferwyr o gefndiroedd amrywiol ac o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol ohonynt i ddod yn Arolygwyr Cymheiriaid[α]<br>2. Creu cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ohonynt gysgodi cyfarwyddwyr anweithredol ar Fwrdd Strategaeth Estyn[α]<br>3. Mynnu bod ein holl gyflenwyr yn dangos eu hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth a defnyddio fframweithiau a phyrth y Llywodraeth i sicrhau ein bod yn manteisio ar brotocolau cytunedig y sector cyhoeddus wrth gymhwyso cydraddoldeb i'r broses gontractio[α]<br>4. Fel cyd-arweinydd, byddwn yn cydweithio ag eraill i adolygu a diwygio'r meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA[β]<br>5. Byddwch yn cydweithio â chyrff eraill, rhanddeiliaid a grwpiau ethnig lleiafrifol i[β]<br>- ddeall yn well y rhwystrau rhag creu gweithlu addysg mwy amrywiol ym mhob sector yng Nghymru<br>- cyfrannu at ddatblygiad y cynllun recriwtio pobl dduon, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol ar gyfer AGA<br>- nodi cyfleoedd i wella lefelau cadw a dilyniant grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ohonynt yn y gweithlu addysg, er enghraifft i adolygu llwybrau dilyniant presennol o arweinyddiaeth ganol i uwch arweinyddiaeth ac o uwch arweinyddiaeth i swyddi pennaeth, gyda'r nod o ddileu rhwystrau<br>cyfrannu at gnewyllyn o gynghreiriaid hynod ymroddedig ar draws gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio gwrth-hiliaeth trwy benodi cynghreiriad neu gynghreiriaid o fewn Estyn | |
| 1.5 | **Byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sensitif a phriodol yn ddiwylliannol**[β] | 1. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu a rhannu arfer orau wrth gyflwyno gwasanaethau mewn ffyrdd priodol yn ddiwylliannol.<br>Byddwn yn adolygu ein gwasanaeth i sicrhau ein bod yn amlygu bod cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gael, lle bo angen | |

**Meini prawf llwyddiant**

- Gwell cynrychiolaeth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ohonynt ar draws graddau a rolau, gan gynnwys ein Bwrdd a'n Pwyllgor
- Gostwng yr adroddiadau am wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu yn yr Arolwg Pobl blynyddol
- Cyfrannu'n llwyddiannus at leihau rhwystrau rhag recriwtio, cadw a dilyniant i gyflawni gweithlu addysg amrywiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.** | **Byddwn yn gwerthuso materion sy’n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod arolygiadau ac yn ein gwaith thematig, gan rannu arfer dda a gwneud argymhellion ar gyfer gwella, lle bydd angen.** | | |
| **2.1** | **Lle y bo’n berthnasol, byddwn yn rhoi sylwadau ar ddeilliannau i blant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig, yn amlygu pwysigrwydd disgwyliadau uchel o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella lle y bydd angen** | **Byddwn yn**<br>1. Ystyried pa mor <u>dda</u> y mae darparwyr a arolygwyd:<br>• yn cyflawni eu dyletswyddau yn neddf Cydraddoldeb 2020 a, lle y bo’n briodol, y graddau y maent yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaethα<br>• yn darparu ar gyfer datblygiad personol, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol a darpariaeth cymorth dysguα<br>• yn helpu dysgwyr i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn datblygu gwerthoedd parch, empathi, dewrder a thosturi, er enghraifftα<br>• yn herio stereoteipiau mewn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau dysgwyr, a pha mor dda y mae’n hyrwyddo hawliau dynolα<br>• yn sicrhau dilyniant yr holl ddysgwyr a grwpiau penodolα<br>• yn datblygu cwricwlwm sy’n adlewyrchu’r cyd-destun lleol yn llawn, gan gynnwys cynllunio gweithgareddau dysgu sy’n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol y darparwrα<br>• yn datblygu cwricwlwm sy’n addysgu am storïau, cyfraniadau a hanesion pobl dduon, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol ar draws y cwricwlwm diwygiedig i Gymruβ<br>2. Adolygu sut rydym yn defnyddio gofynion adrodd i gryfhau effaith ein gweithgareddau arolygu ar ddeilliannau a lles ein dysgwyr â nodweddion gwarchodedig<br>3. Parhau i ymgymryd â rhaglen barhaus o arolygiadau thematig sy’n ystyried themâu cydraddoldeb ac amrywiaethχ<br>4. Hyrwyddo arfer effeithiol a godwyd yn ystod arolygu ac mewn adroddiadau thematig perthnasolα<br>5. Gwneud argymhellion am welliannau, lle bo angenα<br>6. Mynd ar drywydd argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn adroddiadau thematigα<br>7. Peilota dulliau o gasglu data mwy cyffredin am nodweddion gwarchodedig fel rhan o arolygon cenedlaethol yn gysylltiedig ag adroddiadau thematig neu arolygu 2024 i ystyried sut y gallem gynnwys hwn mewn holiaduron ar gyfer arolygiadau darparwyr o 2024 ymlaen. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.2 | **Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chyrff eraill, rhanddeiliaid a grwpiau sy'n hyrwyddo nodweddion gwarchodedig penodol yn fewnol ac yn allanol er mwyn ystyried sut y gallwn ni a'r rheiny rydym yn eu harolygu wella polisïau a phrosesau gweithio er mwyn bod yn fwy amrywiol a bodloni anghenion Cymru amrywiol** | 1. Byddwn yn sicrhau bod gwaith y Grŵp Cydraddoldebau a Chynhwysiant ac adborth gan randdeiliaid sydd â diddordeb yn dylanwadu ar gynllunio gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu arolygiadau, hyfforddi arolygwyr a'r blaenraglen arolygu thematig[α]<br>2. Gwneud dulliau cyfathrebu ac adroddiadau yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach ac yn haws eu deall[α]<br>3. Fel sefydliad sy'n arwain ar y cyd, byddwn yn cydweithio â chyrff eraill fel bod cyfranogiad, deilliannau a dilyniant dysgwyr ôl-16 o gefndiroedd ethnig gwahanol yn cael eu monitro'n systematig[β]<br>4. Byddwn yn cydweithio ag eraill i gyfrannu at adolygu a dylunio'r cwricwlwm AB sy'n adlewyrchu Cymru wrth-hiliol[β]<br>5. Fel sefydliad sy'n arwain ar y cyd, byddwn yn cydweithio ag eraill i gryfhau canllawiau bwlio 'Hawliau, parch, cydraddoldeb' LlC ar gyfer ysgolion i ddatblygu strategaethau gwrthfwlio i ysgolion a sut i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr[β]<br>Adolygu aelodaeth ein grŵp cyfeirio i rieni i sefydlu a chymryd camau i sicrhau ei fod yn amrywiol a'i fod yn adlewyrchu poblogaeth Cymru i'r graddau ag y bo'n bosibl. | |
| 2.3 | **Yn sgil gweithredu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol 2022 Llywodraeth Cymru, byddwn, yn ein gweithgorau perthnasol, yn** | Byddwn yn adolygu<br>1. llawlyfrau ar gyfer AGA er mwyn cynnwys gwerthusiad o effeithiolrwydd cynlluniau recriwtio, cadw a dilyniant darparwyr AGA ar gyfer athrawon du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol dan hyfforddiant<br>2. y trefniant cymorth i fyfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ym mhob cam o'r broses ymgeisio ac astudio<br>3. cyfleoedd i fyfyrwyr AGA ethnig lleiafrifol i gael profiad gwaith i ategu dilyniant gyrfaol yn y dyfodol<br>4. pa mor dda mae'r cwricwlwm AGA yn paratoi athrawon sy'n dechrau arni i fod yn ymarferwyr gwrth-hiliol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **adolygu'r ffordd rydym ni'n gweithio i sicrhau ein bod yn defnyddio pob dull posibl i sicrhau system addysg wrth-hiliol yng Nghymru**[β] | 5. ein fframweithiau, methodoleg ac arweiniad ategol ar gyfer arolygu, gan gynnwys canllawiau i ysgolion, UCDau a cholegau AB i roi grym i unrhyw ddiwygiadau, lle bo hynny'n briodol, sy'n deillio o newidiadau i<br>o y ffordd y mae'n ofynnol i ddarparwyr roi gwybod am ddigwyddiadau ac aflonyddu hiliol, sut mae'r rhain yn cael eu trin, y camau a gymerir i ymateb iddynt ac a gafodd y digwyddiad ei ddatrys yn llwyddiannus i'r dioddefwr, gan gynnwys sicrhau ein bod yn dal safbwyntiau dysgwyr ac athrawon yn effeithiol ynghylch effeithiolrwydd y dulliau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau homoffobig, rhywiaethol a hiliol<br>o canllawiau statudol ynghylch lles er mwyn cydnabod anghenion penodol dysgwyr o gefndir ethnig lleiafrifol neu Sipsi Roma Teithiwr.<br>o Canllawiau gwrth-fwlio "Hawliau, parch, cydraddoldeb" Llywodraeth Cymru i ysgolion<br>o Canllawiau ar waharddiadau o ysgolion ac UCDau i sicrhau bod gwaharddiadau'n cael eu defnyddio mewn ffordd sydd ddim yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol<br>o Casglu data a monitro cyfranogiad, deilliannau a dilyniant dysgwyr ôl-16 o wahanol gefndiroedd ethnig<br>6. Adolygu ein Cynllun Strategol y Gymraeg 2020-2024 ac unrhyw arweiniad perthnasol yn sgil unrhyw gamau a gymerwyd i wella mynediad cymunedau ethnig lleiafrifol at y Gymraeg ym meysydd addysg a dysgu ieithoedd a bod lleisiau siaradwyr Cymraeg du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn cael eu clywed<br>7. Byddwn yn adolygu fframweithiau fel ein bod, yn ein hymarfer arolygu yn y sector nas cynhelir, yn ystyried dulliau darparwyr o fynd i'r afael â gwrth-hiliaeth yn y cwricwlwm newydd fel bod pob plentyn yn cael cyfle i archwilio a dathlu amrywiaeth hiliol mewn ffordd gadarnhaol a chefnogol[β]<br>8. Adolygu ein harweiniad ar gydraddoldeb, hawliau dynol a Saesneg fel iaith ychwanegol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag unrhyw newidiadau a wnawn i'n gwaith i ymateb i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol LlC<br>9. Gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'n fframwaith a'n hymarfer ar gyfer dysgu troseddwyr yn sgil unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol i ddatblygu system cyfiawnder troseddol wrth-hiliol<br>10. Ystyried ein hymweliadau cyswllt ag awdurdodau lleol<br>o sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau mynediad cyfartal i ofal plant a lleoliadau chwarae | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | o sut mae strategaethau lleol (a chenedlaethol) yn cael eu datblygu i gynyddu nifer y bobl dduon, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau rhag addysg cyfrwng Cymraeg<br>o yr amrywiaeth o ymyriadau sydd ar gael i ysgolion i fodloni anghenion lles dysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol<br>11. Adolygu ein gwaith yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg i oedolion i sicrhau ei bod yn cofnodi'r gofyniad i ddarparwyr hyrwyddo mynediad gan gymunedau ethnig lleiafrifol i'r Gymraeg mewn addysg.<br>12. Yn ein rhwydweithiau sector, trafodaethau â LIC ac ymweliadau cyswllt â darparwyr, ystyried yr adolygiad a'r dadansoddiad o gyfranogiad a deilliannau i wahanol grwpiau o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni cyflogadwyedd, gyda'r nod o wella yn y meysydd hyn<br>13. Nodi a chyhoeddi unrhyw arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â hiliaeth a gwella rhagolygon, lles a phrofiadau dysgwyr ac athrawon Du, Asiaidd, Lleiafrif Ethnig a Sipsi, Roma, Teithwyr | |
| 2.4 | **Byddwn yn rhoi hyfforddiant i arolygwyr ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a sut i asesu hynny mewn arolygiadau, gan gyfeirio at Ganllaw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i Reoleiddwyr ac Arolygiaethau, a deddfwriaeth berthnasol Llywodraethau'r DU a Chymru** | 1. Sicrhau bod ein rhaglen barhaus o ddysgu proffesiynol ar gyfer arolygwyr yn parhau i feithrin dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gyda ffocws penodol ar baratoi ar gyfer diwygio ADY[α]<br>2. Sicrhau bod ein cynnig dysgu proffesiynol i staff yn codi ymwybyddiaeth o oblygiadau Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru i Estyn fel cyflogwr, corff cyhoeddus ac arolygiaeth addysg[β] | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.5 | **Byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried y rheiny â nodweddion gwarchodedig a materion canlyniadol wrth gytuno ar ein gwaith arolygu a thematig a'i gyflawni.** | 1. Cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar ein trefniadau arolygu newydd[α]<br>2. Cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer adolygiadau thematig perthnasol[α]<br>3. Adolygu ymchwil bresennol ac ymchwil yn y dyfodol i brofiadau dysgwyr â nodweddion gwarchodedig er mwyn llywio trefniadau ar gyfer 2024 a gwaith thematig parhaus | |
| 2.6 | **Byddwn yn ystyried goblygiadau cynllun gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru yn ein gwaith** | Adolygu ein harweiniad arolygu a'n gwaith ehangach yn sgil y cynllun gweithredu LHDTC+ terfynol a nodi camau gweithredu perthnasol o fewn gweithgorau a'r cynllun cydraddoldeb strategol hwn. | |
| **Meini prawf llwyddiant**<br>• Mae ein tystiolaeth yn adlewyrchu profiadau bywyd grwpiau o ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig<br>• Caiff effaith ffactorau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hamlygu'n glir mewn adroddiadau thematig cyhoeddedig<br>• Caiff tystiolaeth o adroddiadau arolygu ei hamlygu a'i rhannu e.e. i ddangos arfer dda a nodi meysydd i'w gwella'n gysylltiedig â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Nifer yr argymhellion sy'n cael eu derbyn/gweithredu o weithgorau ar y cyd | | | |

---

[α] O bolisi gwreiddiol Cynllun Cydraddoldeb Strategol Estyn 2020 - 2024 (002).pdf gyda mân ddiwygiadau, lle bo angen

[χ] Diwygiad i'r polisi gwreiddiol o ganlyniad i'r cynllun gweithredu gwrth-hiliol

[β] Ychwanegiadau fel ymateb i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol LlC

[δ] O ganlyniad i gamau'n gysylltiedig â diwygiadau i'r polisi Bwlio ac Aflonyddu